



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bro Tegid
Y Bala
Gwynedd
LL23 7BN**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/07/2017

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bro Tegid yn nhref Y Bala yng Ngwynedd. Mae'n gwasanaethu'r dref ei hun, a'r ardal wledig o gwmpas. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Mae 120 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Pum dosbarth oed cymysg sydd yn yr ysgol.

Tua 10% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol (19%). Tua 75% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 12% fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn ohonynt sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cychwynnodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Ebrill 2016. Mae hefyd yn bennaeth ar ddwy ysgol gyfagos sy'n cydweithio o fewn partneriaeth. Mae'r ysgol yn rhan o drefniadau'r awdurdod ar gyfer uno ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant gydag Ysgol y Berwyn erbyn 2018. Arolygwyd ysgol Bro Tegid ddiwethaf ym mis Chwefror 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Bro Tegid yn 2016 - 2017 yw £3,260. Yr uchafswm ar gyfer disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Gynradd Bro Tegid yn yr 89fed safle o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn a'u bod yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi
- rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn effeithiol at wahanol bwrpasau ac ar draws ystod o bynciau a chyd-destunau
- ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn a rhan fwyaf y disgyblion yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith
- yr athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol, sy'n ennyn chwilfrydedd ac awydd i ddysgu ymysg y disgyblion
- perthynas waith dda iawn yn bodoli rhwng staff a disgyblion ym mhob dosbarth sy'n creu ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion, a'i bod wedi cyfleu'r weledigaeth honno yn llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr
- y pennaeth cynorthwyol a'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol ac yn cydweithio fel tîm i gynnig cyfleoedd dysgu ysgogol i ddisgyblion
- aelodau'r corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- yr ysgol wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n sicrhau dealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- partneriaethau llwyddiannus yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill, sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a lles disgyblion

Argymhellion

- A1 Gwella medrau TGCh disgyblion yn enwedig medrau trin data a modelu
- A2 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio mwy o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu her gyson i ddisgyblion o allu uwch

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i tua chwarter ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar a gwrando bron pob disgybl yn datblygu'n dda. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn ymateb yn eiddgar i gwestiynu'r athrawon yn gywir a hyderus yn y ddwy iaith. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg ac, erbyn diwedd y cyfnod, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus iawn. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau darllen ar goedd yn unol â'u hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf yn darllen yn gywir ac yn rhugl. Gall y rhan fwyaf drafod cynnwys testun yn ystyrion gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir a hyderus yn y Gymraeg. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrion yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrion. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys cyfeirlyfrau a'r we, er enghraifft wrth ddysgu am y glaniad cyntaf ar y lleuad.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau annibynnol mewn amrywiaeth o destunau, gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gyson, er enghraifft wrth ysgrifennu am nodweddion solid a hylif. Mae'r goreuon yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur am ras falwnau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd yn effeithiol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am ddigwyddiad ar y Berwyn yn 1973. Maent yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn datblygu eu medrau rhif yn gadarn i safon sy'n briodol i'w hoed. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau. Mae rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod o fedrau rhif a mesur yn hyderus, er enghraifft wrth fesur gwahanol rannau o'r corff neu wrth gyfrifo cost rysât ar gyfer gwneud teisen frau. Maent yn casglu data a'i gymhwyso yn effeithiol, er enghraifft wrth greu graff o liwiau llygaid plant y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau ar gyfer datrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo pris teithio i Eisteddfod yr Urdd. Mewn gwyddoniaeth, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn addas wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol. Enghraifft o hyn yw'r data a gofnodir wrth gymharu taldra disgyblion blwyddyn 5 a 6. Fodd bynnag, ychydig o'r disgyblion mwy galluog sy'n cyflawni tasgau ymestynnol ar lefelau sy'n uwch na'r disgwyl, a chyfyng yw defnydd disgyblion o rifedd mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n addas i gyflwyno gwybodaeth. Maent yn hyderus, er enghraifft wrth osod llun a thestun i greu poster am wledydd gwahanol. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth reoli tegan er mwyn dilyn llwybr penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol trwy amrywiaeth o raglenni, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith ar y planedau. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am e-ddiogelwch ac maent yn defnyddio'r rhyngwyd yn ddiogel ac yn effeithiol i chwilio am wybodaeth, er enghraifft am fywyd plant yn oes Fictoria. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig wedi amrywio ac nid oes patrwm cyffredinol. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg ac nid oes patrwm cyffredinol. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch yn y Gymraeg yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros yr un cyfnod wedi amrywio ac nid oes patrwm cyffredinol.

Am fod nifer y disgyblion mor fach, nid yw cymariaethau perfformiad bechgyn a merched na disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ddibynadwy.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach, yfed dŵr yn rheolaidd, a'r angen i ymarfer y corff.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau fel arweinwyr gemau buarth o ddifrif. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron bob disgybl yn dda. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn deall yn dda'r meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf yn gwybod sut i wella eu gwaith, ac yn asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn parchu barn a llais y disgyblion. Mae cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyflawni eu gwaith yn gydwysbodol ac mae gan yr aelodau lais dylanwadol yn yr ysgol trwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth gynnal clwb 'dal i fynd' wythnosol i hybu ffitrwydd disgyblion. Mae'r aelodau'n trefnu gweithgareddau cyson i godi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol, sy'n ennyn chilfrydedd ac awydd i ddysgu ymysg y disgyblion. Maent yn cynllunio'r cwricwlwm yn fwriadus er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Darperir cyfleoedd cyson yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd tu allan i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddewis eu gweithgareddau eu hunain. Mae hyn cael effaith dda ar feithrin annibyniaeth y disgyblion. O ganlyniad, maent yn ddysgwyr hyderus a mentrus. Mae ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, sy'n cynnwys ymweliadau amrywiol yn yr ardal leol, er enghraifft i Blas Tan y Bwlch a Byd Mari Jones, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu'r drefn o gynllunio er mwyn sicrhau gwell cysondeb wrth gyflwyno egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws ystod o bynciau yn y ddwy iaith ac, o ganlyniad, gwnânt gynydd da. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddatblygu holl fedrau rhifedd na TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi datblygu'n llawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig o safon uchel. Mae'r pwyslais cyson ac effeithiol ar sicrhau ansawdd uchel iaith lafar y disgyblion yn nodweddiadol gref ac fe gaiff hyn ei adlewyrchu o fewn y dosbarthiadau ac ar y buarth. Mae ystod gyfoethog o brofiadau gwerthfawr er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a thraddodiadau lleol a Chymru yn eu thema, er enghraifft wrth iddynt astudio hanes Owain Glyndŵr a Hedd Wyn. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol ac i elwa o ymweliadau gan feirdd ac awduron lleol. Mae hyn yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion tuag at yr iaith ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth a diwylliant Cymru yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy'r disgyblion yn dda iawn. Mae'r eco bwyllgor yn hyrwyddo ailgylchu ac arbed ynni yn llwyddiannus a thrwy blannu blodau a llysiau o amgylch yr ysgol a chydweithio gyda chynghor y dref yn cyfrannu'n effeithiol at wella'r amgylchfyd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Er enghraifft, drwy astudio gwledydd tramor, a'r ffordd o fyw ynddynt a phwysigwydd y Fasnach Deg, mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn datblygu'n dda.

Addysgu: Da

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymhell disgyblion i ddysgu. Mae perthynas waith dda iawn yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n creu amgylchedd dysgu hamddenol, cyfeillgar a gweithgar. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau ac yn holi'r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Yn yr ychydig o enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu'r gwersi ac maent yn cynnig adborth gwerthfawr iddynt yn amserol. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol i gynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesuadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau, er enghraifft medrau darllen a sillafu disgyblion. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a chefnogol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn effeithiol gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol a rhoddir cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio ar faterion perthnasol. Mae cyfraniad gweinidogion lleol a staff Coleg y Bala yn cryfhau'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Golyga hyn bod y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin â'i gilydd. Mae gweithdrefnau llwyddiannus iawn i hybu ymddygiad cadarnhaol ac i hybu presenoldeb cyson.

Gwneir defnydd da o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, gan gynnwys gwasanaethau meddygol, cymdeithasol, seicolegol a chwmsela, i gefnogi anghenion unigolion. Mae hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni pan fo'u hangen. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les ac agweddau'r disgyblion. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhaglenni cefnogi hynod lwyddiannus ar eu cyfer. Mae staff yn gofalu bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni pan fyddant yn eu hadolygu. Mae'r athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn fedrus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniadau rhan fwyaf o'r disgyblion.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, gynhwysol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae holl aelodau'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu trin yn deg a chyda pharch. Mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr yn bodoli i ddelio'n effeithiol ag unrhyw ragfarn neu achos o fwlio, pe bai'n codi. Mae awyrgylch cydweithredol a chadarnhaol yn yr ysgol, sy'n meithrin ymagwedd aeddfed a chyfrifol ymysg y disgyblion.

Mae'r safle a'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n lân a thaclus. Mae'r safle yn darparu amgylchedd ysgogol a diogel ar gyfer y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau a thir yr ysgol yn effeithiol i annog disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Yn ddiweddar, crëwyd ardaloedd tawel er mwyn gwella'r amgylchedd ddysgu sy'n hybu lles emosiynol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn arddangos gwaith disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth a'r manau cyhoeddus yn gelfydd, sy'n rhoi bri ar eu cyflawniadau. Mae'r rhain yn ychwanegu at yr ethos cartrefol a chroesawgar sy'n bodoli yno.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir iawn yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn effeithiol i'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni.

Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol gan y pennaeth cynorthwyol ac aelodau eraill y staff. Mae gweithdrefnau rheoli'r ysgol yn drefnus gyda chyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod arweinwyr a staff yn trafod materion pwysig sy'n ymwneud â chodi safonau a lles disgyblion. O ganlyniad, mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm i ddarparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ddysgu. Mae hyn wedi arwain at sicrhau cysondeb yn y drefn gynllunio ar draws yr ysgol a sefydlu gweithdrefnau cadarn a manwl ar gyfer asesu cynnydd disgyblion.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn. Mae'r amcanion yn briodol, ac yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau datblygu'r ysgol ynghyd â gofynion proffesiynol unigol y staff.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth weithredu Siarter Iaith Gwynedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymru ac yn siarad Cymraeg graenus o gwmpas yr ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau startegol yn gydwytbodol. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth drwyadl o safonau'r ysgol a sut mae'n cymharu ag ysgolion tebyg. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion ac i drafod blaenoriaethau gydag aelodau o staff. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth werthfawr o gryfderau'r ysgol a meysydd ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Gwella ansawdd: Da

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gadarn ac effeithiol. Maent yn sicrhau bod arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu yn dda. Mae'r amserlen o weithgareddau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ystyried a dadansoddi tystiolaeth eang ynglŷn â chyflawniad disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad, arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae'r arweinwyr yn cywain barn y disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni yn rheolaidd, gan ystyried unrhyw awgrymiadau ac ymateb yn briodol iddynt. Enghraifft dda o sut mae athrawon wedi ymateb i awgrymiadau disgyblion a rhieni yw'r newidiadau diweddar yn y ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau mathemateg pen disgyblion a natur y gwaith cartref.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar ddeilliannau'r gweithdrefnau monitro, yn arfarnol, ac yn nodi'r cryfderau ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol.

Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn gynhwysfawr sy'n canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r camau gweithredu'n fanwl ac yn cysylltu â meini prawf llwyddiant mesuradwy. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y cynllun yn rheolaidd ac yn addasu a gweithredu'n briodol yn unol â'r angen. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau, er enghraifft wrth wella ansawdd ysgrifennu disgyblion a'u dealltwriaeth o sut i wella eu gwaith.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol gwerthfawr, sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda rhieni. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored cydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gref y rhieni. Mae'r athrawon yn trosglwyddo gwybodaeth reolaidd i rieni am wahanol agweddau o waith yr ysgol ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt drafod cynnydd eu plant. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plant yn llwyddiannus. Mae'r gymdeithas rhieni yn weithgar ac yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol i gynorthwyo'r ysgol i brynu adnoddau ychwanegol er budd y disgyblion.

Mae cydweithio llwyddiannus iawn yn bodoli rhwng athrawon y tair ysgol mewn partneriaeth i rannu arfer dda. Mae hyn wedi arwain at wella'r cynllunio ar gyfer hybu medrau'r disgyblion a chryfhau'r drefn o asesu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a gwella ansawdd ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli gyda'r cylch meithrin. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol a'r ysgol uwchradd i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar weithdrefnau ysgol er mwyn sicrhau bod cysondeb wrth lefelu cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae'r trefniadau trosglwyddo gyda'r ysgol uwchradd yn gadarn gan helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym wrth symud i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol a gwasanaethau cefnogi amrywiol yr awdurdod lleol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion a'r teuluoedd sydd ei hangen.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â'r gymuned, busnesau lleol, a mudiadau cenedlaethol i wella profiadau dysgu'r disgyblion. Daw nifer o wirfoddolwyr o'r ardal i gyfrannu at wahanol weithgareddau, er enghraifft drwy gynnig gwersi celf a chynnal sesiynau chwaraeon ar ôl amser ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at fagu agweddau cadarn at les ymysg y disgyblion ac yn arwain at werthfawrogiad a balchder disgyblion yn eu cymuned.

Rheoli adnoddau: Da

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn bwrpasol i sicrhau awyrgylch ddysgu effeithiol. Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r pennaeth wedi lleoli'r staff yn synhwyrol a dosrannu cyfrifoldebau'n addas i fodloni anghenion penodol yr ysgol. Mae cymorthyddion yn cefnogi athrawon a disgyblion yn effeithiol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion.

Mae athrawon yn defnyddio'u cyfnodau digyswllt yn effeithlon er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth yn gyson. Mae hyn yn arwain at welliannau yn yr addysgu ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt fynychu cyrsiau perthnasol, er enghraifft ynglŷn a sut i wella safonau darllen disgyblion ar frig yr ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r cydweithio da ag ysgolion eraill yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gyd-gynllunio ac i rannu arfer dda, er enghraifft wrth wella'r drefn asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus a thrwyadl. Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol i godi safonau llythrennedd, rhifedd a lles grwpiau penodol o ddisgyblion.

O ystyried safon cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6612180 - Ysgol Bro Tegid

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	114
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	13.0
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	9	17	19	12
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	66.7	94.1	100.0	66.7
Chwarter meincnod	4	2	1	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	9	17	19	12
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	94.1	100.0	75.0
Chwarter meincnod	1	3	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	44.4	29.4	31.6	25.0
Chwarter meincnod	2	3	3	3
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	9	17	19	12
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	66.7	94.1	100.0	66.7
Chwarter meincnod	4	3	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	22.2	23.5	15.8	25.0
Chwarter meincnod	3	4	4	4
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	9	17	19	12
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0	91.7
Chwarter meincnod	1	1	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	100.0	94.1	47.4	50.0
Chwarter meincnod	1	1	4	4

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddiprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6612180 - Ysgol Bro Tegid

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

114

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

13.0

Grŵp PYD

2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod allweddol 2

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	16	14	19	18
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	87.5	92.9	94.7	88.9
Chwarter meincnod	3	3	2	4
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	16	14	19	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	87.5	100.0	94.7	100.0
Chwarter meincnod	4	1	3	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	43.8	57.1	42.1	61.1
Chwarter meincnod	3	1	3	1
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	16	14	18	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	87.5	100.0	94.4	94.4
Chwarter meincnod	3	1	2	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	50.0	64.3	50.0	55.6
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	16	14	19	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	87.5	92.9	94.7	88.9
Chwarter meincnod	4	3	3	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	43.8	21.4	26.3	44.4
Chwarter meincnod	3	4	4	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	16	14	19	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	93.8	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	3	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	37.5	64.3	26.3	50.0
Chwarter meincnod	3	1	4	2

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	52	51 98%	1 2%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	52	50 96%	2 4%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	52	51 98%	1 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	52	52 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	51	51 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	52	51 98%	1 2%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	52	52 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	52	52 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	52	45 87%	7 13%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		90%	10%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	52	51 98%	1 2%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	52	45 87%	7 13%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	52	48 92%	4 8%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	63	43 68%	18 29%	2 3%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		62%	34%	3%	1%		
My child likes this school.	63	52 83%	9 14%	2 3%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	63	47 75%	15 24%	0 0%	0 0%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	62	33 53%	24 39%	4 6%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	35%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	63	35 56%	22 35%	3 5%	0 0%	3	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	63	31 49%	29 46%	3 5%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	37%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	63	34 54%	25 40%	2 3%	0 0%	2	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		64%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	63	22 35%	16 25%	8 13%	6 10%	11	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		49%	43%	7%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	63	37 59%	19 30%	2 3%	1 2%	4	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	63	40 63%	22 35%	0 0%	0 0%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	38%	2%	0%		
My child is safe at school.	63	46 73%	14 22%	1 2%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	63	30 48%	17 27%	4 6%	0 0%	12	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		55%	39%	5%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	63	23 37%	30 48%	6 10%	1 2%	3	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		48%	41%	9%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	63	38 60%	19 30%	3 5%	0 0%	3	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	63	26 41%	30 48%	2 3%	0 0%	5	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	63	31 49%	28 44%	1 2%	0 0%	3	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		57%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	61	20 33%	20 33%	1 2%	0 0%	20	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	62	23 37%	34 55%	3 5%	0 0%	2	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	39%	6%	1%		
The school is well run.	63	29 46%	28 44%	2 3%	1 2%	3	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	34%	4%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Glyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Sian Evans	Arolygydd Cymheiriaid
Bethan Jones	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.